# Adnoddau ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig

Bydd Sul, 27 Tachwedd, yn nodi dechrau tymor yr Adfent, ac unwaith eto mae yna lawer o adnoddau newydd ar gael ar gyfer y cyfnod cyffrous hwn yn hanes bywyd ein heglwysi. Mae adran arbennig ar wefan http://cristnogaeth.cymru/nadolig/ yn ein cyflwyno i'r adnoddau hyn. Dros yr wythnosau nesaf fe fydd mwy o adnoddau yn cael eu hychwanegu i'r adran, felly cofiwch alw 'nôl yn rheolaidd wrth i bethau newydd ymddangos.

### Adnodd Anhygoel Ddydd

Ar gyfer 2022 mae Cymdeithas y Beibl a Chyngor yr Ysgolion Sul wedi cydweithio i gynhyrchu a dosbarthu tri adnodd newydd yn y gyfres *Anhygoel Ddydd: Stori'r Nadolig Cyntaf*. Mae'r pecyn yn cynnwys llyfryn newydd sbon i blant, drama hwyliog a rhyngweithiol, a ffilm (6 munud) wedi ei hanimeiddio y mae modd ei lawrlwytho a'i dangos mewn oedfa.

Mae'r llyfryn newydd ar gael o wefan Cymdeithas y Beibl neu gan Gyngor yr Ysgolion Sul, ac wrth brynu 50 copi neu fwy maent ar gael am 75c yr un. Mae'r stori gan Bob Hartman, ac yn rhoi rhagflas i ni o destun newydd Agor y Llyfr fydd yn cael ei lansio o'r newydd yn ystod Gwanwyn 2023. I gyd-fynd â'r llyfr, mae *Drama'r Geni* newydd sbon, sydd eto ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Wedi'i haddasu o'r llyfryn *Anhygoel Ddydd*, mae'r sgript egnïol hon yn addas i'w mwynhau gan bawb o bob oed mewn gwasanaethau Nadolig. Mae cyflwyniad PowerPoint hefyd ar gael i gyd-fynd â'r ddrama.

### Drama Wseia a'r Baban

Mae sgript newydd arall ar gael ar wefan ysgolsul.com, sef Wseia a'r Baban, wedi ei pharatoi gan Andy Hughes o fudiad Saint y Gymuned. Meddai Andy: 'Bob blwyddyn adeg y Nadolig mae rhieni a neiniau a theidiau yn mwynhau gwylio sioe Nadolig ysgol eu plant. Mae *Wseia a'r Baban* yn sioe newydd a ysgrifennwyd gen i ar gyfer perfformiadau gan blant CA2'.

Bu Andy'n mynd ar daith o amgylch ysgolion adeg y Nadolig gyda thimau o bypedwyr am flynyddoedd lawer ac mae'r sgript newydd hon – sydd ar gael i'w lawrlwytho a'i pherfformio am ddim – wedi'i seilio'n fras ar rai syniadau o sioe bypedau yn 2002, ond wedi'i diweddaru i blant ei pherfformio. Mae hefyd yn cynnwys pum cân newydd sbon. Mae'n adrodd stori'r Nadolig o safbwynt angel ifanc, dibrofiad. Mae recordiadau o'r caneuon ar gael ar Youtube fel y gall athrawon a phlant eu clywed. Mae'r sgript ar gael i'w lawrlwytho o wefan ysgolsul.com. Am fwy o wybodaeth a chyngor, cysylltwch ag Andy Hughes ar 07968 826401.




### Llyfryn lliwgar i blant – *Ac fe Ddaeth Duw fel Fi?*

Mae *Ac fe Ddaeth Duw fel Fi?* yn llyfryn lliwgar i'w rannu i blant yn y gymuned, gyda cherdd Nadoligaidd wedi ei haddasu i'r Gymraeg gan Delyth Wyn. Mae'n cynnwys lluniau trawiadol i'r plant eu lliwio wrth fyfyrio ar y geiriau. Mae modd cael pecyn o 10 am £7.99 o wefan Scripture Union.

### Myfyrdodau Adfent newydd gan Jim Clarke

Bob blwyddyn bydd Jim Clarke yn paratoi pum myfyrdod y gellir eu defnyddio fel myfyrdod personol neu fel rhan o oedfa gyhoeddus. Ac mae'r pum myfyrdod newydd sydd wedi eu paratoi ganddo gyfer 2022 i'w gweld ar wefan ysgolsul.com yn yr adran adnoddau newydd ar gyfer y Nadolig. Maent ar gael i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim.

### Rhannu cylchgronau a chomics

Bob blwyddyn bydd gan Gyhoeddiadau'r Gair ddetholiad o adnoddau cenhadol i'w rhannu yn y gymuned. Mae dau gylchgrawn a dau gomig ar gael ar hyn o bryd, ynghyd â thaflen garolau liwgar. Ceir gwybodaeth bellach yn yr adran adnoddau cenhadol ar wefan ysgolsul.com.

### Taflen garolau newydd ar gyfer 2022

Mae mudiad cenhadol Embrace the Middle East, sy'n gweithio i gefnogi Cristnogion yn Israel, wedi paratoi taflen garolau dwyieithog newydd sbon ar gyfer 2022. Mae mwy o wybodaeth ar wefan ysgolsul.com.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr*
*Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair*